OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2680

## Rheoliadau Tai (Hawl Cynnig Cyntaf) (Cymru) 2005

**Gwaredu eiddo a gaffaelwyd drwy waredu gwirfoddol ar ddisgownt gan landlord cymdeithasol cofrestredig**

**17.**—(1) Gan eithrio rheoliadau 14 i 16, bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn gymwys os bydd gwarediad perthnasol, heblaw gwarediad esempt, o fuddiant perchennog mewn eiddo a gaffaelwyd ar ddisgownt oddi wrth landlord cymdeithasol cofrestredig a ddefnyddiodd ei bŵer i waredu tir yn adran 9(**1**) o Ddeddf Tai 1996, yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol.

(2) Yn rheoliad 1—

(a) yn lle'r diffiniad o "landlord blaenorol" rhodder—

"ystyr "perchennog blaenorol" ("*former owner*") yw'r landlord cymdeithasol cofrestredig a waredodd yr eiddo o dan adran 9 o Ddeddf Tai 1996";

(b) yn lle'r diffiniad o "perchennog" rhodder—

"ystyr "perchennog" ("*owner*") yw'r person sydd yn berchennog rhydd-ddaliadol neu lesddaliadol yr eiddo ac sy'n gyfrwymol i gyfamod hawl cynnig cyntaf a osodwyd o dan adran 12A o Ddeddf Tai 1996"; ac

(c) yn lle'r diffiniad o "eiddo" rhodder—

"ystyr "eiddo" ("*property*") yw eiddo sy'n ddarostyngedig i gyfamod hawl cynnig cyntaf a osodwyd o dan adran 12A o Ddeddf Tai 1996"

(3) Yn rheoliad 10(3), yn lle "adran 158 o Ddeddf 1985" rhodder "adran 12B(**2**) o Ddeddf Tai 1996".

(4) Ble bynnag y mae'r ymadrodd "landlord blaenorol" yn digwydd rhodder "perchennog blaenorol".

(**1**) Diwygiwyd adran 9 gan adrannau 140 a 152 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac Atodlenni 16 ac 18 iddi.
(**2**) Mewnosodwyd adran 12B gan adran 200 o Ddeddf Tai 2004.